# Datganiad Caethwasiaeth Fodern

**Blwyddyn Ariannol: 1 Ebrill 2024 tan 31 Mawrth 2025**

## 1. Trosolwg

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod eang o wasanaethau statudol a dewisol i dros 147,000 o breswylwyr. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn drwy ei weithlu ei hun a thrwy dros 1,700 o sefydliadau preifat a thrydydd sector.

Mae'r Cyngor yn llofnodwr Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys y materion cyflogaeth canlynol:

- Caethwasiaeth Fodern a thorri hawliau dynol
- Cosbrestru
- Hunangyflogaeth ffug
- Defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- Thalu'r Cyflog Byw

Mae 12 ymrwymiad y Cod yn cynnwys mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl. Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd, ac y bydd yn eu cymryd, i sicrhau nad oes unrhyw Gaethwasiaeth Fodern na Masnachu Pobl yn ei fusnes ei hun nac mewn cadwyni cyflenwi.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwbl ymrwymedig i amlygu ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern a sicrhau 'Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi'. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ehangach, cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau, undebau llafur ac eraill i fynd i'r afael â heriau Caethwasiaeth Fodern a sbarduno gweithredu ar y cyd gyda'r nod o leihau risgiau ac achosion o gaethwasiaeth fodern.

## 2. Beth yw Caethwasiaeth Fodern?

Yn y DU, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 sy'n diffinio troseddau caethwasiaeth, caethiwed a llafur dan orfodaeth a masnachu pobl, ac mae'n cynnwys mesurau i amddiffyn y dioddefwyr posibl.

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ddifrifol sy'n torri hawliau dynol. Mae dioddefwyr yn cael eu gorfodi, eu bygwth neu eu twyllo i sefyllfaoedd o ddarostyngiad a rheolaeth sy'n tanseilio eu hunaniaeth bersonol a'u hymdeimlad o hunan.

Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'i ddynodiad fel sefydliad 'Ymatebydd Cyntaf' o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a'i gyfrifoldeb i nodi dioddefwyr posibl a chyfeirio achosion at Awdurdod Cymwys Canolfan Masnachu Pobl y DU o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

## 3. Ein Polisïau

Mae Cynllun Corfforaethol 2018-23 yn nodi uchelgeisiau ac ymrwymiadau'r Cyngor i ddinasyddion a'i gyfraniad at saith nod lles Cymru fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y weledigaeth yw "un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau". Mae'r Cynllun yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n "sail i sut rydym yn gweithio" a'r gwerthoedd sy'n "llunio sut rydym yn gweithio".

Caiff y Cynllun Corfforaethol ei ddiweddaru'n flynyddol ac mae ganddo dri amcan lles:

1. Cefnogi economi lwyddiannus a chynaliadwy.
2. Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn.
3. Defnydd mwy deallus o adnoddau.

Mae **Polisi Diogelu Corfforaethol** cyffredinol y Cyngor yn nodi dyletswydd ac ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy’n agored i risg er mwyn sicrhau bod arferion effeithiol ar waith ar draws y Cyngor a’i wasanaethau sydd wedi’u comisiynu. Mae'r polisi yn ymdrin â holl swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor ac mae'n berthnasol i holl weithwyr y Cyngor, aelodau etholedig, gofalwyr maeth, unigolion sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith a gwirfoddolwyr sy'n gweithio o fewn y Cyngor.

Mae'r strategaethau a'r polisïau allweddol eraill yn cynnwys:

- Mae **Strategaeth Caffael Cymdeithasol-gyfrifol (ADD LINK)** y Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i "wella arferion gwaith teg a diogelu a fabwysiedir gan gyflenwyr." Mae'r Cyngor am weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ei werthoedd.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi.
- A dileu caethwasiaeth fodern, fel bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn chwarae rhan flaenllaw wrth wneud Cymru'n elyniaethus tuag at gaethwasiaeth fodern.
- Mae’r **Polisi Chwythu’r Chwiban** yn galluogi staff y Cyngor a chyflogeion contractwyr / cyflenwyr y Cyngor i adrodd am arferion cyflogi anfoesegol i’r Cyngor.
- Mae’r **Cod Ymddygiad Gweithwyr** yn ei gwneud yn glir i gyflogeion beth yw’r camau gweithredu a’r ymddygiad a ddisgwylir ohonynt wrth gynrychioli’r Cyngor. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae’n rhaid iddyn nhw weithredu gydag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd. Mae'r sefydliad yn ymdrechu i gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad cyflogeion ac ymddygiad moesegol yn ei holl weithrediadau ac wrth reoli ein cadwyn gyflenwi.
- **Polisi recriwtio** - nod y Cyngor bob amser yw recriwtio'r unigolyn sy'n fwyaf addas i'r swydd benodol. Mae gan y Cyngor brosesau recriwtio cadarn, sy'n cynnwys gwirio dogfennau er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael gweithio yn y DU.
- **Gweithwyr asiantaeth** - mae’r Cyngor yn cyrchu pob gweithiwr asiantaeth a staff dros dro drwy ddarparwyr trydydd parti. Rydym yn contractio gwasanaeth a reolir gyda Pertemps y mae ei Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn nodi ei ddull dim goddefgarwch tuag at gaethwasiaeth fodern ac mae ar gael ar ei wefan.

4. **Ein cadwyni cyflenwi**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu ystod eang o wasanaethau statudol a dewisol i dros 147,000 o breswylwyr. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn drwy ei weithlu ei hun a thrwy dros 1,700 o sefydliadau preifat a thrydydd sector.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i reoli arian cyhoeddus gyda gonestrwydd a sicrhau bod ei £186m o wariant caffael blynyddol yn cael ei reoli yn y fath fodd fel ei fod yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau ehangach y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ein cadwyni cyflenwi wedi lledaenu ar draws y byd, ac y gallai rhannau o'r gadwyn gyflenwi fod yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar ein cyflenwyr uniongyrchol a bydd angen i'n cyflenwyr sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern yn eu cadwyn gyflenwi.

Mae'r sectorau risg uchel o ran caethwasiaeth fodern yn cynnwys , hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, adeiladu a gweithgynhyrchu. Mae adolygiad o wariant y Cyngor wedi dangos bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth yn fewnol ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd risg uchel, gan ddefnyddio fframweithiau cenedlaethol a/neu gyflenwyr lleol. Ystyrir bod y risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl gan ein cyflenwyr uniongyrchol yn isel.

Drwy'r broses dendro, mae'r Cyngor yn sicrhau bod ein cyflenwyr uniongyrchol yn ymwybodol o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a'u bod hefyd yn deall eu rhwymedigaethau fel cyflenwyr neu gontractwyr y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cyflawni diwydrwydd dyladwy wrth ystyried derbyn cyflenwyr newydd a bydd yn ceisio adolygu ei gyflenwyr presennol bob blwyddyn drwy ei drefniadau rheoli contractau. Mae'r diwydrwydd dyladwy a'r adolygiadau yn cynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofyniad Adran 54 (Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) ynghylch Datganiad Caethwasiaeth Fodern ac, fel rhan o werthuso tendrau a rheoli contractau'n barhaus, ystyried potensial a thebygolrwydd caethwasiaeth fodern; ceisio mesurau lliniaru gan y cyflenwr drwy ddealltwriaeth glir o strwythur, cadwyni busnes a chyflenwi a pholisïau'r cyflenwyr mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl.
- Cynnal asesiadau o gyflenwyr i greu proffil risg sy'n canolbwyntio ar sefydlogrwydd ariannol ac sydd hefyd yn cwmpasu yswiriant a chydymffurfiaeth â pholisïau cyflogaeth amrywiol gan gynnwys dogfen Llywodraeth Cymru, Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Cymryd camau i wella arferion cyflenwyr nad ydynt yn cwrdd â'r safon, gan gynnwys cynnig cyngor i gyflenwyr a'i gwneud yn ofynnol iddynt roi Cynlluniau Gweithredu ar waith; er enghraifft, dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau recriwtio diogelach.
- Cymryd rhan mewn mentrau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol a pholisïau caffael cymdeithasol-gyfrifol yn gyffredinol a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn benodol.
- Cosbi cyflenwyr sy'n methu bodloni ein disgwyliadau neu wella eu perfformiad yn unol â Chynllun Gweithredu, sy'n cynnwys darpariaeth i derfynu'r berthynas fusnes.

## 5. Hyfforddi cyflogeion

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant i'n gweithwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl a llafur dan orfod. Yn ogystal â hyfforddiant lefel ymwybyddiaeth bydd angen hyfforddiant penodol i'w rôl ar rai staff, er enghraifft ymatebwyr cyntaf a staff comisiynu a chaffael.

Ein nod yw darparu rhaglen hyfforddiant a fydd yn cynnwys:

- Modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern / masnachu pobl
- Gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr (ymwybyddiaeth ac ymatebwyr cyntaf)
- Gweithdy ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern / masnachu pobl (3 awr)
- Cwrs atal caethwasiaeth i ymatebwyr cyntaf.
- Hyfforddiant a gomisiynwyd yn allanol ar gyfer grwpiau penodol o staff (e.e. caffael a chomisiynu)

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddi, bydd staff yn cael mynediad at adnoddau ar-lein a fydd yn cynnwys e-ddysgu ar bynciau arbenigol fel llinellau cyffuriau, a dolenni i fideos, canllawiau a gwefannau allanol sy'n rhoi gwybodaeth am gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

## 6. Dyletswydd i Hysbysu

Mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw unigolyn y deuir ar ei draws yng Nghymru a Lloegr y credant ei fod efallai yn dioddef o gaethwasiaeth neu fasnachu pobl. Mae'r ddarpariaeth 'dyletswydd i hysbysu' wedi'i nodi yn Adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac mae'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a all, fel sefydliad ymatebwr cyntaf dynodedig, atgyfeirio i'r MAC. Mae'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) yn fframwaith ar gyfer nodi a chyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Mae'r gofyniad hwn ynglŷn â dioddefwyr posibl Caethwasiaeth Fodern ynghlwm wrth gyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan fel y nodir yn y Polisi Diogelu Corfforaethol pan fydd gan aelodau o staff, fel cyflogeion yr awdurdod lleol, ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

**MASH (Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth) Pen-y-bont ar Ogwr**

**Staff MASH Heddlu De Cymru (PPU)**

Ffôn: 01656 815808

**Tîm Diogelu Oedolion**

Ffôn: 01656 642477

**Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC) (Plant)**

Ffôn: 01656 642320

E-bost: mashcentra@bridgend.gov.uk

## 7. Beth mae'r Cyngor wedi'i wneud

Rydym wedi:

- Dod yn un o lofnodwyr Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru:  Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Dechrau'r broses o adolygu ein cadwyni cyflenwi i nodi meysydd risg uchel.
- Datblygu strategaeth gaffael a chynllun cyflawni sy'n gymdeithasol-gyfrifol.
- Parhau i gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Cod Ymarfer a rhannu arfer gorau mewn amgylchiadau perthnasol.
- Dod yn aelod o Fforwm Atal Caethwasiaeth Bae’r Gorllewin (WBASF). Prif ffocws y fforwm yw:
    - hyrwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth o atal caethwasiaeth ar draws ôl troed Bae’r Gorllewin (rhanbarthau Pen-y-bont ar Ogwr / Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe);
    - ystyried amlder a math yr atgyfeiriadau o dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC) a derbyn diweddariadau ar Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) Atal Caethwasiaeth lleol a
    - hwyluso prosesau cyfnewid gwybodaeth am fasnachu pobl a chasglu gwybodaeth ar draws yr ystod gyfan o wasanaethau statudol, a sefydliadau trydydd parti cysylltiedig.
- Ymrwymo i adolygu'r hyn a gynigiwn dan hyfforddiant diogelu corfforaethol i sicrhau ein bod yn darparu hyfforddiant lle mae cyfrifoldebau statudol ar yr awdurdod lleol.

## 8. Beth fydd y Cyngor yn ei wneud

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi’r camau canlynol ar waith yn ein hymdrechion i sicrhau nad oes Caethwasiaeth Fodern na Masnachu Pobl yn digwydd.

| **Cyf** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|
| 1 | Yn unol â chymal 7 o'r Cod Ymarfer, parhau i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal adolygiad rheolaidd o wariant ac yn cynnal asesiad risg.   Byddwn yn parhau i:<br>• Nodi unrhyw gyflenwyr risg uchel a monitro ar gyfer tramgwyddau yn erbyn hawliau dynol ac arferion cyflogaeth anfoesegol a fydd yn dod yn eitem safonol ar yr agenda mewn cyfarfodydd ac adolygiadau contract.<br>• Archwilio ffyrdd o weithio gyda'n cyflenwyr Haen 1 i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern i'w atal rhag digwydd drwy broses Asesu Risg ffurfiol: **'Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi'**. |
| 2 | Defnyddio'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi – cyflawni Strategaeth Gyfathrebu Caethwasiaeth Fodern i sicrhau bod ymwybyddiaeth yn cael ei chodi ar draws y Cyngor a chyda sefydliadau partner ac asiantaethau eraill. |

| | |
|---|---|
| | • Rhannu dysgu ac arfer gorau ar draws y Cyngor, â chyrff sector cyhoeddus eraill a phartneriaid a cheisio dysgu o'u profiadau.<br>• Parhau i ymgysylltu ag Undebau Llafur i godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymhlith eu haelodau. |
| 3 | Byddwn yn darparu rhaglen wedi'i thargedu o hyfforddiant Caethwasiaeth Fodern (rhithwir) ar draws gwahanol gyfarwyddiaethau'r Cyngor – yn unol â chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19, wedi'u cydgysylltu â hyfforddiant Diogelu Corfforaethol ehangach.<br>• Byddwn yn parhau i nodi staff y mae angen hyfforddiant arnynt mewn arferion cyflogi moesegol ac yn ceisio meithrin ymwybyddiaeth / gallu yn enwedig ymysg aelodau o staff rheng flaen sy'n gweithio yn y gymuned.<br>• Byddwn yn ceisio ehangu'r gronfa o hyfforddwyr mewnol sydd ar gael i hwyluso hyfforddiant lefel ymwybyddiaeth i staff ar draws y Cyngor.<br>• Byddwn yn cadw cofnodion o bwy sydd wedi cael hyfforddiant ar draws y gwahanol gyfarwyddiaethau ac yn targedu'r rhai lle mae angen gwella cyfraddau cwblhau. |
| 4 | Adolygu a diweddaru pan fo angen y Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn flynyddol ac adrodd am gynnydd y Cynllun Gweithredu hwn. |
| 5 | Byddwn yn annog cyflenwyr i ychwanegu cymalau gwerth cymdeithasol Caethwasiaeth Fodern at gontractau newydd gan y bydd hyn yn cymell arfer da, gan gynnwys defnyddio offer a setiau data perthnasol. |
| 6 | Byddwn yn arfer 'cymunedau maes' lle mae Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'i gilydd i rannu arfer gorau a sicrhau arbedion maint, e.e. rhannu data diwydrwydd dyladwy ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i lywio archwiliadau, ac ati (gan ddefnyddio llwyfannau fel TISCreport). |
| 7 | Cwblhau adolygiad a diweddaru dogfennaeth dendro'r Cyngor er mwyn sicrhau yr eir i'r afael yn llawn â materion Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl sy'n cynnwys cymalau i:<br>(i) wirio bod gan gontractwyr sydd â throsiant o fwy na £36 miliwn Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern.<br>(ii) Cynnwys y Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn rhan o'n dogfennau tendro. |
| 8 | Penodi 'Pencampwr' caethwasiaeth fodern |
| 9 | Cwblhau adolygiad a diweddaru Telerau ac Amodau safonol y Cyngor i sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael:<br>(i) Adolygu contractau cyflenwyr a mapio cadwyni cyflenwi trwy ddiwydrwydd dyladwy – gydag opsiwn i gynnwys cosbau neu gymal terfynu os amheuir Caethwasiaeth Fodern. |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) | Sicrhau nad oes pwysau amser na chost ormodol a allai arwain at drin staff mewn modd anfoesegol. |
| | (iii) | Ymgorffori ymagwedd dim goddefgarwch at Gaethwasiaeth Fodern. |

## 9. Deunydd / Adnoddau Ategol

Yn ogystal â'r dolenni a amlygir drwy gydol y datganiad, mae gan y Swyddfa Gartref amrywiaeth o ddogfennau a deunydd hyrwyddo ar gael.

## 10. Cymeradwyo Datganiad

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Llofnodwyd gan: ……………………………………

**Mark Shephard, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Dyddiad llofnodi... 18/10/21................